

Adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod 28 Ebrill 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Y Cyng. Julian Thompson Hill / Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

Awdur yr Adroddiad: Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

Teitl Diweddariad Archwilio Mewnol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran sut y mae'n darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant. Mae hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd gydag Arfer Da CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n galluogi'r Pwyllgor i fonitro perfformiad a chynnydd yr Adain Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd ar wasanaethau eraill y Cyngor a meysydd corfforaethol. Mae hyn yn galluogi'r pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Bydd cyflawni'r cynllun archwilio yn cynorthwyo'r pwyllgor i gael sicrwydd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu amodau'r Cyngor yn briodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, asesu cynnydd a pherfformiad yr Adain Archwilio Mewnol.

Bod y Pwyllgor yn penderfynu os yw angen sicrwydd pellach ynghylch unrhyw feysydd a archwiliwyd i ddilyn cynnydd o ran gweithredu'r cynlluniau gweithredu gwelliant.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae atodiad 1 yn rhoi diweddariad ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed ers yr adroddiad diweddaru diwethaf i'r pwyllgor yn Ionawr 2021. Ers yr adroddiad diweddariad Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio mae dau archwiliad wedi eu cwblhau, ac ni roddwyd graddfa sicrwydd isel i unrhyw un ohonynt. Cwblhawyd tri adolygiad dilynol hefyd o archwiliad sicrwydd isel blaenorol sydd wedi eu cynnwys fel eitemau rhaglen ar wahân.

Yng ngoleuni'r pandemig coronafeirws, mae'r tîm archwilio mewnol yn parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth mewn perthynas â newidiadau i drefniadau rheoli a effeithiwyd gan y pandemig a gofynion gweithio o bell. Ein canolbwynt yw cwblhau archwiliadau sy'n flaenoriaeth a gynlluniwyd ar gyfer 2020/21 fel adroddwyd i'r pwyllgor yn Nhachwedd 2020 a, tra bod ymgysylltiad gan wasanaethau yn gyffredinol dda, mae Covid-19 yn parhau i effeithio ar gyflymder a chynnydd rhai o'n harchwiliadau.

Mae atodiad 1 yn dangos yr effaith ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2020/21 oherwydd Covid-19 a'r gostyngiad dros dro mewn adnoddau archwilio fel nodwyd yn flaenorol. Rydym wedi penodi Uwch Archwilydd am gyfnod penodol o 12 mis i gyflenwi yn ystod secondiad (adleoliad i gychwyn) yr Uwch Archwilydd i'r Tîm Profi, Orlhain a Diogelu sydd bellach wedi ei ymestyn i fis Medi 2021. Mae swydd Uwch Archwilydd yn wag yn y strwythur archwilio mewnol.

Mae'r Prif Archwilydd Mewnol yn ystyried fod gwaith digonol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd hyd yma a'r hyn sydd bron a'i gwblhau, ynghyd â'r ddibyniaeth a roddir ar ffynonellau sicrwydd eraill. Er gwaethaf gostyngiad mewn cynnwys archwiliadau, dylai dibyniaeth ar sicrwydd arall alluogi'r Prif Archwilydd Mewnol Iunio Barn Flynyddol ar lywodraethu, rheoli risg a threfniadau rheoli mewnol heb unrhyw gyfyngiadau cwrmpas yn yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn eithriadol. Bydd y Farn Flynyddol yn cael ei hysgrifennu gan ystyried canllawiau diweddar CIPFA ar ddarparu Barn Flynyddol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Amherthnasol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risg na fydd y Prif Archwilydd Mewnol yn gallu cael sicrwydd digonol i gyflwyno barn flynyddol gyflawn yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus Mae'r archwiliadau sy'n weddill yn cael eu blaenoriaethu i ymdrin â llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol a bydd y cwmpas ar gyfer yr archwiliadau hyn yn canolbwyntio ar risgiau allweddol. Yn ddiweddar mae CIPFA

wedi cyhoeddi canllawiau ar ddarparu barn flynyddol i roi cyfrif am unrhyw gyfyngiadau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.